Arddangosiadau gwybodaeth am safleoedd bysus electronig yn mynd yn fyw ym Mro Morgannwg

Yn dilyn gosod arddangosiadau gwybodaeth electronig newydd mewn lleoliadau allweddol ar gyfer safleoedd bysus ym Mro Morgannwg, mae'r Cyngor yn falch o ddweud bod y swp cyntaf wedi mynd yn fyw gan roi gwybodaeth am amserlenni sy'n benodol i safleoedd bysus. Bydd cyfanswm o 23 o arddangosiadau yn fyw erbyn canol mis Mai.

Ar hyn o bryd, dim ond gwybodaeth amserlen wedi'i hamserlennu y mae'r arddangosiadau yn dangos nes y gall gweithredwyr roi gwybodaeth fyw. Mae hyn er mwyn osgoi dryswch rhwng y ddau fath o wybodaeth. Daw gwybodaeth ar gyfer yr arddangosiadau o ddata Traveline Cymru a roddwyd iddynt gan y gweithredwyr bysus lleol.

Ariannwyd y cynllun cychwynnol hwn gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Bro Morgannwg. Mae'r Cyngor yn cynllunio ymhellach y gwaith o osod mwy o arddangosiadau electronig ar gyfer safleoedd bysus ledled Bro Morgannwg yn ystod 2021-22 gan ddefnyddio arian grant ychwanegol a ddyfarnwyd gan Lywodraeth Cymru at y diben hwn.

Ymwadiad: Ni all Cyngor Bro Morgannwg a phartïon rhanddeiliaid dderbyn atebolrwydd am unrhyw gamgymeriadau a ddangosir, yn enwedig gan fod gweithredwyr wrthi'n adolygu eu hamserlennu ar fyr rybudd i ateb y galw yn ystod pandemig presennol y Coronafeirws.